

DISGRIFIAD SWYDD

Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd

Crynodeb

Sefydlwyd Partneriaeth Genomeg Cymru i gynrychioli nifer o sefydliadau a disgyblaethau sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, sydd gyda'i gilydd yn anelu at drawsnewid y gwasanaethau genomeg yng Nghymru er budd cleifion.

Rydym yn cydnabod bod y materion a'r ffactorau sy'n ymwneud â geneteg a genomeg yn gymhleth. Hoffwn weithio gyda chleifion ac aelodau o'r cyhoedd i esbonio pethau mewn ffordd glir a syml, gan rymuso dinasyddion Cymru i ddeall mwy am yr hyn y gall genomeg ei olygu iddynt.

Sefydlwyd Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd yn 2019. Recriwtiwyd cleifion ac aelodau o'r cyhoedd gydag ystod eang o brofiadau yn ymwneud â phrofion geneteg a genomeg, i ymuno â'r Bwrdd Seinio. Nod y grŵp hwn yw cynrychioli dinasyddion Cymru wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella profiad cleifion ac yn y pen draw, iechyd a lles ein poblogaeth.

Hoffem recriwtio carfan newydd i ymuno â'r Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd hwn ac ehangu'r aelodaeth bresennol. Rydym yn awyddus i recriwtio unigolion sydd ag ystod o brofiadau (naill ai'n bersonol neu'n anuniongyrchol fel gofalwr neu aelod o deulu) gan gynnwys:

- Canserau etifeddol fel cancer etifeddol y fron, y prostad, y coluddyn neu ganser yr ofari
- Clefydau prin fel Ffeibrosis Systig, Clefyd Huntington, Sglerosis Clorog
- Anhwylderau Oedi Datblygiadol fel Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, X Fregus, Syndrom Down
- Cael cynnig profion geneteg er mwyn rhagfynegi clefydau, neu yn ystod beichiogrwydd
- Cymryd rhan mewn prawf meddygaeth fanwl neu 'bersonol', e.e. ar gyfer cancer
- Unrhyw ryngweithio â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan

Ymgynghorwyd â'r Bwrdd Seinio presennol ar nifer o bynciau hyd yma gan gynnwys:

- Dewisiadau ar gyfer cymryd caniatâd cleifion i ddefnyddio eu data genomeg / samplau ar gyfer ymchwil
- Dylunio gwefan dda sydd â'r cynllun, y cynnwys a'r ymarferoldeb mwyaf addas
- Ffyrdd o wella ardaloedd clinig a mannau aros yn y gwasanaeth genomeg
- Cynllunio a deall ystyriaethau o safbwynt cleifion a'r cyhoedd ar gyfer lleoliad newydd arfaethedig y gwasanaethau genomeg
- Cynnwys taflenni gwybodaeth a deunydd ategol arall ar gyfer apwyntiadau
- Ystyriaethau penodol i gleifion wrth gyflwyno rhai gwasanaethau genomeg newydd
- Sut y gall rhaglenni cysylltiedig eraill sicrhau y gall cleifion a'r cyhoedd gael eu cynnwys yn eu gwaith
- Cynnwys ac ymagwedd ar gyfer cynhadledd fawr oedd yn hyrwyddo pob agwedd ar genomeg

Bydd y grŵp hwn yn parhau i weithio gydag aelodau eraill o Partneriaeth Genomeg Cymru er mwyn:

- Ein helpu i lunio deunyddiau cyfathrebu i gleifion/y cyhoedd

- Ein helpu i wella ymwybyddiaeth cleifion/y cyhoedd o brofion geneteg a genomeg
- Ein helpu i wella ein prosesau caniatâd ar sail gwybodaeth a thafleini gwybodaeth i gleifion
- Ein helpu i lunio ein dull o rannu samplau a data er budd ymchwil a gofal clinigol
- Ein helpu i lunio ein dull o ddarparu gwasanaethau genomeg i'n cleifion
- Ein helpu i sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith

Gwybodaeth Gefndirol

Ym mis Gorffennaf 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth uchelgeisiol i drawsnewid y ddarpariaeth o brofion geneteg a genomeg o fewn [GIG Cymru](#).

Ffurfiwyd Partneriaeth Genomeg Cymru i ddod ag arbenigwyr o sawl disgyblaeth iechyd ynghyd i sicrhau y gall dinasyddion Cymru elwa'n gyfartal o'r prawf geneteg cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.

Mae ein Strategaeth Cynnwys Cleifion wedi'i datblygu er mwyn:

- a. Dangos ymrwymiad i weithio mewn modd agored a thryloyw gyda chleifion a'r cyhoedd, gan ddefnyddio eu profiadau ar y cyd i lunio ac ychwanegu gwerth at waith Partneriaeth Genomeg Cymru a gwasanaethau genomeg yng Nghymru yn y dyfodol
- b. Defnyddio profiadau cleifion a'r cyhoedd i wella'r llwybr gofal i gleifion, o'r rhyngweithio cyntaf i'r olaf
- c. Cyd-gynhyrchu dull agored, tryloyw ac y cytunwyd arno'n gyhoeddus o rannu data genomeg a meddygaeth fanwl ar gyfer datblygu gwasanaethau, gofal clinigol ac ymchwil
- d. Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o genomeg, gan sicrhau ei bod yn dod yn faes gofal iechyd hygyrch i ddinasyddion Cymru

Dyma'ch cyfle i lunio'r ffordd rydym yn sôn am geneteg a genomeg, ac i wella profiad cleifion i bawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau genomeg glinigol yng Nghymru, o safbwynt genomeg ddynol a phathogen.

Ers dechrau'r pandemig, mae sesiynau rhithwir wedi disodli cyfarfodydd wyneb yn wyneb – bydd y trefniant hwn yn parhau hyd nes y bernir ei bod yn ddiogel cyfarfod yn bersonol. Ar yr adeg honno, bydd trefniadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu trafod gydag aelodau'r Bwrdd Seinio.

Y Swydd

Cyfrifoldebau

Fel aelod o'r Bwrdd Seinio bydd gofyn i chi:

- Fynychu cyfarfod ymgynghori wyneb yn wyneb/rhithwir bob tri mis
 - Lle bo'n briodol, bydd deunydd darllen i chi roi sylwadau arno a'i drafod yn ystod y cyfarfodydd yn cael ei gyhoeddi bythefnos cyn pob cyfarfod
- Cymryd rhan mewn rhywfaint o ymgynghoriadau e-bost drwy gydol y flwyddyn mewn ymateb i unrhyw geisiadau ad-hoc a allai godi rhwng ymgynghoriadau wyneb yn wyneb/rhithwir. Er enghraifft, efallai y byddwn am wirio geiriad datganiad i'r wasg gyda'r grŵp cyn ei gyhoeddi
- Hyrwyddo gwaith genomeg neu gyfleoedd i'ch cysylltiadau/rhwydweithiau yn ôl y gofyn (darperir cyfarwyddyd clir)
- Dod â'ch profiadau eich hun o brofion geneteg a genomeg i'r bwrdd, gan gynrychioli persbectif ehangach hefyd

Sgiliau a Rhinweddau

Rydym yn chwilio am bobl sydd:

- Â phrofiad o brofion geneteg / genomeg / meddygaeth fanwl / treialon clinigol / canser etifeddol / clefydau prin
- Yn rhieni â phlant sydd wedi derbyn/cael cynnig prawf geneteg
- Wedi derbyn/cael cynnig prawf geneteg yn ystod beichiogrwydd
- Yn gallu lleisio barn mewn modd adeiladol, mewn amgylchedd grŵp
- Yn gallu egluro'n glir pam y gall rhai cyfathrebiadau beri emosiynau cryf, dryswch neu ansicrwydd
- Yn gallu gwrandao ar safbwyntiau eraill a'u parchu
- Yn deall y bydd Partneriaeth Genomeg Cymru yn defnyddio'r mewnwelediad cyfunol a geir i wella a llunio ein gwaith, ond efallai na fydd yn gallu gweithredu pob awgrym unigol fyddwch yn ei gyflwyno

Nid oes angen y canlynol arnoch:

- Profiad gwyddonol neu ymchwil penodol; byddwn yn recriwtio yn seiliedig ar brofiad lleig / fel claf / fel aelod o'r cyhoedd, felly nid ydym yn ceisio safbwyntiau proffesiynol
- Profiad siarad cyhoeddus neu hyfforddiant yn y cyfryngau

Ymrwymiad Amser

- **Pedwar cyfarfod chwarterol** drwy gydol y flwyddyn - bydd y rhain yn cael eu cynnal yn rhithiol neu wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, Abertawe neu ganolbarth/gogledd Cymru. Bydd cyfarfodydd yn para tua phum awr gan gynnwys seibiannau am luniaeth
- **Paratoi ar gyfer cyfarfodydd** – byddwn yn anfon unrhyw ddogfennau a deunyddiau atoch o leiaf bythefnos ymlaen llaw fel y gallwch eu darllen a'u hystyried cyn y cyfarfod. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaith paratoi gymryd mwy na thair awr fesul cyfarfod
- **Ymgynoriadau dros e-bost** - ar sail ad-hoc. Mae nifer a math yr ymgynoriadau dros e-bost yn debygol o amrywio ac efallai y bydd cyfleoedd i hyn gynyddu. Ni fydd angen i chi ddarllen llawer o ddeunydd ar gyfer y rhain.
- **Cyfnod ymsefydlu a hyfforddiant undydd** fydd yn cael ei gynnal yn rhithiol ddydd Mawrth 6 Gorffennaf 2021, cyn y cyfarfod ymgynghori fydd yn cael ei gynnal yn rhithiol y diwrnod canlynol, dydd Mercher 7 Gorffennaf 2021.

Hyd y Cyfnod ar y Bwrdd

O leiaf blwyddyn i ddechrau gyda'r bwriad o ymestyn i flwyddyn arall yn seiliedig ar brofiad Blwyddyn 1.

Hyfforddiant a Chymorth

Ar ddechrau eich cyfnod ar y Bwrdd Seinio byddwch yn derbyn:

- Diwrnod ymsefydlu a hyfforddiant fydd yn cwmpasu
 - Gwybodaeth gyffredinol am Partneriaeth Genomeg Cymru a'i sefydliadau partner i roi cyd-destun i'ch rôl a'ch helpu i ddeall diben eich rôl mewn perthynas â gwaith y fenter
 - Gwybodaeth benodol am y Bwrdd Seinio; pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
 - Gwybodaeth gefndir gyffredinol am genomeg a hyfforddiant perthnasol wedi'i deilwra lle bo angen
- Cyswllt penodol ym Mhartneriaeth Genomeg Cymru y gallwch gysylltu ag ef os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn, yn ystod neu ar ôl gweithgaredd
- Lle y bo'n briodol, dod i gysylltiad â gwahanol dimau'r sefydliadau partner e.e. Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, timau'r wasg a chyfathrebu

Treuliau

Mae taliad honorariwm ar gael i dalu am yr amser sydd ei angen i baratoi ar gyfer sesiynau ymgynghori a'u mynychu. Ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd yr holl gostau teithio, llety, arlwyo a chyfranogi rhesymol yn cael eu talu gan Bartneriaeth Genomeg Cymru yn unol â'n polisi*. Bydd llety ac arlwyo yn cael eu trefnu gennym ni os bydd angen.

Lleoliad

Bydd cyfarfodydd ymgynghori chwarterol yn cael eu cynnal yn rhithiol neu wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, Abertawe neu yng nghanolbarth/gogledd Cymru. Byddwn bob amser yn darparu manylion lleoliadau cyfarfodydd ymlaen llaw, yn ogystal â mapiau a chyfarwyddiadau. Bydd pob lleoliad yn hygyrch i'r rhai ag anghenion ychwanegol fel mynediad i gadeiriau olwyn, ac ati. Ar gyfer cyfarfodydd rhithwir, rhoddir manylion cysylltu ymlaen llaw.

Cyfle Cyfartal

Ym Mhartneriaeth Genomeg Cymru (PGC) rydym yn cynnwys pobl o bob cefndir, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ddiwylliant. Yn y rôl hon efallai y byddwch yn gweithio gyda grŵp amrywiol o bobl a bydd angen i chi gynrychioli safbwyntiau'r bobl hynny. Mae PGC yn fenter i Gymru gyfan, ac felly rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r wlad, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg.

Proses Ymgeisio

- Os byddai gennych ddi-ddordeb mewn gwneud cais am fod yn aelod o'r Bwrdd Seinio hwn, **cwblhewch y ffurflen datganiad o ddi-ddordeb gysylltiedig a'i chyflwyno i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru erbyn 31 Mai 2021. [Gwnewch gais yma.](#)**
- Byddwn yn llunio rhestr fer o geisiadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 7 Mehefin 2021 ac yn gwahodd pobl sydd â'r sgiliau a'r profiad mwyaf perthnasol i gyfweiliad anffurfiol dros y ffôn
- Byddwn yn cysylltu â phawb sy'n gwneud cais erbyn 11 Mehefin 2021 i roi gwybod i chi a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad
- Bydd y cyfweiliadau dros y ffôn yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14 Mehefin 2021
- **Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i sesiwn ymsefydlu, hyfforddi ac ymgynghori rithiol dau ddiwrnod ar 6 a 7 Gorffennaf 2021.** Mae eich argaeledd ar gyfer y sesiwn ymsefydlu a hyfforddi hon yn rhan o'r broses ddethol

*Mae ein polisi treuliau yn adlewyrchu canllawiau a gynhyrchwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer gweithgarwch CCC tebyg

Manylion cyswllt Partneriaeth Genomeg Cymru:

D/O Ryan Moreland

Partneriaeth Genomeg Cymru, Sefydliad Geneteg Feddygol, Ysbyty Athrofaol Cymru, Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 4XW

E-bost: genomicpartnershipwales@wales.nhs.uk

Gwefan: <https://genomicspartnership.wales/cy>